# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 29 Mawrth 2022

Amser y cyfarfod: 13.30

# 63(v4)

Cynhelir y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

Mae'r Llywydd wedi penderfynu y bydd Aelodau, yn unol â Rheol Sefydlog 34.14A-D, yn gallu pleidleisio o unrhyw leoliad drwy ddull electronig.

## 1 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## 2 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 3 Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Diweddariad ar Covid-19 - TYNNWYD YN ÔL

(0 munud)

## 4 Datganiad gan y Gweinidog Newid Hinsawdd: Diweddariad ar Ddiogelwch Adeiladau - TYNNWYD YN ÔL

(0 munud)

## 5 Datganiad gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol: Y wybodaeth ddiweddaraf am y cynllun Cartrefi i ffoaduriaid Wcráin

(30 munud)

## 6 Datganiad gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Diwygio Ardrethi Annomestig

(30 munud)

## 7 Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd: Diogelwch Tomenni Glo

(45 munud)

## 8 Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol: Gwaith Teg: diweddariad blynyddol ar gynnydd

(30 munud)

## 9 Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Diwygiadau sy'n Ymwneud â Chyhoeddi Gwybodaeth) (Cymru) 2022

(15 munud)

**NDM7966** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

1. Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Reoliadau Awdurdodau Lleol (Diwygiadau sy'n Ymwneud â Chyhoeddi Gwybodaeth) (Cymru) 2022 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Mawrth 2022.

**Dogfennau Ategol**

Memorandwm Esboniadol

Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

## Cynnig i atal Rheolau Sefydlog (5 munud)

**NNDM7977** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod Senedd Cymru, yn unol â Rheolau Sefydlog 33.6 a 33.8:

Yn atal Rheol Sefydlog 12.20(i) a'r rhan honno o Reol Sefydlog 11.16 sy'n ei gwneud yn ofynnol bod y datganiad wythnosol o dan Reol Sefydlog 11.11 yn darparu'r amserlen ar gyfer busnes yn y Cyfarfod Llawn yr wythnos ganlynol, er mwyn caniatáu i NNDM7975 a NNDM7976 gael eu hystyried yn y Cyfarfod Llawn ar 29 Mawrth 2022.

## Cynnig o dan Reol Sefydlog 12.24 i gynnal dadl ar eitemau 10 - 12 gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân (30 munud)

## 10 Rheoliadau Deddf y Coronafeirws 2020 (Newid Dyddiad Dod i Ben) (Cymru) 2022

**NDM7967** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

1. Yn cymeradwyo Rheoliadau Deddf y Coronafeirws 2020 (Newid Dyddiad Dod i Ben) (Cymru) 2022 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Mawrth 2022.

**Dogfennau Ategol**

Memorandwm Esboniadol

## 11 Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 7) 2022

**NNDM7975** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

1. Yn cymeradwyo Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 7) 2022 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 25 Mawrth 2022.

**Dogfen Ategol**
Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

## 12 Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 8) 2022

**NNDM7976** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

2. Yn cymeradwyo Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 8) 2022 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 25 Mawrth 2022.

**Dogfen Ategol**
Adroddiad y pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

## Cynnig i atal Rheolau Sefydlog

**NNDM7974** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheolau Sefydlog 33.6 a 33.8:

Yn atal Rheol Sefydlog 12.20(i) i ganiatáu i NNDM7973 gael ei ystyried yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth, 29 Mawrth 2022.

## 13 Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Diogelwch Adeiladau

(30 munud)

**NNDM7973** Julie James (Gorllewin Abertawe)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau yn y Bil Diogelwch Adeiladau i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn y Swyddfa Gyflwyno ar 19 Gorffennaf 2021 a gosodwyd Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol yn y Swyddfa Gyflwyno ar 21 Medi 2021, 20 Ionawr 2022, 22 Chwefror 2022 a 25 Mawrth 2022 yn unol â Rheol Sefydlog 29.2.

Y Bil Diogelwch Adeiladau *(Saesneg yn unig)*

**Dogfennau Ategol**

Adroddiad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai *(Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol a Memorandwm Rhif 2)*

Adroddiad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai *(Memorandwm Rhif 3 a Rhif 4)*

Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad *(Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol a Memorandwm Rhif 2)*

Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad *(Memorandwm Rhif 3 a Rhif 4)*

## 14 Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Etholiadau

(15 munud)

**NDM7968** Mick Antoniw (Pontypridd)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau yn y Bil Etholiadau i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Medi 2021 a 22 Mawrth 2022, yn y drefn honno, yn unol â Rheol Sefydlog 29.2.

Y Bil Etholiadau

**Dogfen Ategol**

Adroddiad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai *(Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol)*

Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad *(Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol)*

## 15 Cyfnod pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mercher, 30 Mawrth 2022

# Cwestiynau Llafar a gyflwynwyd ar 24/03/2022 i'w hateb ar 29/03/2022

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

## PRIF WEINIDOG

**Sam Rowlands** *Gogledd Cymru*

1 OQ57901 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i ddileu gwrthsemitiaeth yng Nghymru?

**Llyr Gruffydd** *Gogledd Cymru*

2 OQ57906 **(w)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am oblygiadau Datganiad y Gwanwyn 2022 gan y Canghellor i Gymru?

**Sioned Williams** *Gorllewin De Cymru*

3 OQ57865 **(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am effaith COVID ar wasanaethau mamolaeth yng Ngorllewin De Cymru?

**Jack Sargeant** *Alun a Glannau Dyfrdwy*

4 OQ57905 **(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU am drigolion Cymru sydd wedi cael eu diswyddo'n anghyfreithlon gan P&O?

**Cefin Campbell** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

5 OQ57871 **(w)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i ddatblygu twristiaeth feicio yng ngorllewin Cymru?

**Jane Dodds** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

6 OQ57879 **(e)**

Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch rhoi amddiffyniadau ar waith yn erbyn codiadau mewn prisiau i bobl ledled Cymru wledig sy'n dibynnu ar olew gwresogi ac LPG?

**Delyth Jewell** *Dwyrain De Cymru*

7 OQ57904 **(e)**

Sut y bydd Llywodraeth Cymru yn lliniaru unrhyw effeithiau negyddol y gallai Datganiad Gwanwyn Llywodraeth y DU eu cael ar aelwydydd yn Nwyrain De Cymru?

**Russell George** *Sir Drefaldwyn*

8 OQ57902 **(e)**

Pa gymorth y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi i Cyfoeth Naturiol Cymru i liniaru llifogydd ar dir yng nghanolbarth Cymru?

**Mark Isherwood** *Gogledd Cymru*

9 OQ57889 **(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r sector twristiaeth yng Ngogledd Cymru?

**Samuel Kurtz** *Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro*

10 OQ57900 **(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am dargedau plannu coed Llywodraeth Cymru?

**Laura Anne Jones** *Dwyrain De Cymru*

11 OQ57876 **(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar ganlyniad y trafodaethau rhwng Llywodraeth Cymru ac Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru ynghylch yr adolygiad o'r rhestrau dyletswyddau?

**Hefin David** *Caerffili*

12 OQ57903 **(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth Cymru i hen gymunedau glofaol?